Senedd Cymru
**Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth**

Cofnodion
dydd Llun 13 Rhagfyr, 10.30am-hanner dydd
Cyfarfod rhithwir

**Yn bresennol**: Mark Isherwood AS, Heledd Fychan AS, Carolyn Thomas AS, Rachel Brown, Julie Annetts, Sarah Broadhurst, Felicity Stephenson, Davina Carey-Evans, Ruth Rabet, Chris Haines, Marie James, Samantha Lambert-Worgan, Catherine Vaughan, Frances Rees, Einir Price, Rob Newton-Miller, Tim Nicholls, Elaine Jennings, Amanda Daniels, Kirsty Jones, Gemma Jones, Aoife Pryor, Amanda Evans, Beth Edwards, Claire Bullock, Caroline Rawson, Jacquelyn Elias, David Davies, John Price, Kieran Fraser, Leanne Mathers, Kelly Preston a Dan Rose

**Ymddiheuriadau**: Delyth Jewell AS, Keith Ingram, Diane Bracegirdle, Nick Davies, Claire Morgan, Wendy Thomas, Karen Shepherd a Michal Blochowiak.

## 1. Croeso a Chyflwyniad

Croesawodd Mark Isherwood AS bawb i gyfarfod cyhoeddus cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth yn ystod chweched tymor y Senedd.

**Ysgrifennydd y grŵp**
Derbyniodd MI ymddiswyddiad Tim Nicholls fel ysgrifennydd, gan ddiolch iddo am ei waith yn helpu i ailsefydlu'r grŵp. Cytunodd yr Aelodau fod Chris Haines, rheolwr materion allanol newydd y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol ar gyfer Cymru, yn cymryd ei le.

## 2. Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth

Rhoddodd Julie Annetts, pennaeth tîm anabledd dysgu, awtistiaeth a chyflyrau niwro-ddatblygiadol Llywodraeth Cymru, y wybodaeth ddiweddaraf am y Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth. Amlinellodd waith i alinio polisi drwy gael gwared ar waith seilo, meithrin cydweithio, hyrwyddo integreiddio a nodi bylchau. Rhoddodd JA drosolwg o gyfrifoldebau gweinidogol, gan esbonio bod Eluned Morgan, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cael ei chefnogi gan ddau ddirprwy. Julie Morgan yw'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, sy'n gyfrifol am bolisi awtistiaeth, tra bod Lynne Neagle yn Ddirprwy Weinidog dros Iechyd Meddwl a Lles.

Dywedodd JA wrth y grŵp fod blaenoriaethau polisi yn cynnwys gweithredu'r cod awtistiaeth statudol yn ogystal â chynllun cyflyrau niwro-ddatblygiadol integredig newydd ar gyfer pob oedran. Tynnodd sylw at y galw parhaus a'r adolygiad o gapasiti gwasanaethau niwro-ddatblygiadol a gwaith i adeiladu ar y rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc. Esboniodd JA y bydd polisi'n canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu, gwella data, datblygu'r gweithlu, gwella cynaliadwy yn y tymor hir, cefnogaeth strategol, a gwasanaethau trawsbynciol integredig.

Tynnwyd sylw gan Frances Rees, o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, at y wybodaeth sydd ar gael ar y wefan, [https://autismwales.org/cy/](https://autismwales.org/cy/). Cyflwynodd ei chydweithiwr, Kirsty Jones, ei hun, gan ddweud ei bod wedi ymuno â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol mewn rôl sy'n canolbwyntio ar weithredu'r cod. Croesawodd Jacquelyn Elias fwriad Llywodraeth Cymru i ehangu'r ffocws i gyflyrau niwro-ddatblygiadol eraill fel Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) yn ogystal ag awtistiaeth.

Cododd MI bryderon am rai gwasanaethau yng Ngogledd Cymru, gan feirniadu'r ffordd wael y mae rhieni'n cael eu trin a diwylliant o roi'r bai ar bobl awtistig. Ategodd Catherine Vaughan ei bryderon am blant yn cael eu symud ar gam oddi wrth rieni awtistig. Rhybuddiodd fod rhianta'n cael ei asesu'n rhy aml o safbwynt niwro-nodweddiadol. Tynnodd FR sylw at waith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i uwchsgilio gweithwyr cymdeithasol, cynyddu dealltwriaeth o niwroamrywiaeth, a mynd i'r afael â stereoteipiau dwfn. Rhoddodd Anna Cole safbwynt rhiant, gan godi pryderon am ddiffyg cefnogaeth yn yr ysgol uwchradd i'w merch 18 oed. Wrth godi pryderon am ddiffyg cefnogaeth i blant sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion, rhybuddiodd rhieni hefyd fod eu mewnbwn yn aml yn cael ei anwybyddu unwaith y bydd plentyn yn troi'n 18 oed. Pwysleisiodd Carolyn Thomas AS ei bod yn bwysig cefnogi teuluoedd ac athrawon. Tynnodd JA sylw at y system anghenion dysgu ychwanegol newydd sy'n cael ei chyflwyno'n raddol gyda'r nod o drawsnewid y ddarpariaeth. Wrth ymateb i gwestiwn am nifer yr achosion o awtistiaeth a chyflyrau ND eraill, nododd MI fod tua 1% o'r boblogaeth yn awtistig.

## 3. Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth

Rhoddodd Dr Sarah Broadhurst, cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth, drosolwg o waith yr Ymddiriedolaeth yn Lloegr. Esboniodd fod y sefydliad partneriaeth wedi'i sefydlu yn 2007 gan ddau sefydliad, y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol ac Ambitious about Autism. Tynnodd Dr Broadhurst sylw at dair egwyddor allweddol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth: un, edrych ar awtistiaeth fel gwahaniaeth - nid diffyg; dau, cynnwys llais plant awtistig; a thri, partneriaeth leol. Dywedodd wrth y grŵp fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n bennaf mewn lleoliadau addysg prif ffrwd yn Lloegr. Dywedodd SB fod yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu wyth egwyddor arfer da o ran awtistiaeth a fframweithiau safonau a arweinir gan ymchwil ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion ac ôl-16. Ychwanegodd fod gan yr Ymddiriedolaeth fframweithiau cymhwysedd i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall sut mae arfer da yn edrych. Gwahoddodd sylwadau ar gynlluniau'r Ymddiriedolaeth i weithio gyda rhanddeiliaid lleol i ddatblygu fframwaith safonau tebyg ar gyfer cyd-destun Cymru.

Amlinellodd FR rai o adnoddau'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ar gyfer lleoliadau addysg o'r blynyddoedd cynnar i addysg bellach, yn unol ag AGC a fframwaith arolygu Estyn. Tynnodd sylw at gynllun ardystio ymwybodiaeth awtistiaeth Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Dywedodd JA y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn hapus i drafod y fframwaith gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol Cododd Elaine Jennings bryderon ynghylch arafwch y cynnydd o ran gwella dealltwriaeth o awtistiaeth mewn ysgolion. Awgrymodd MI fod angen i hyfforddiant symud y tu hwnt i ymwybyddiaeth tuag at ddeall, derbyn a grymuso.

## 4. Canllaw Arfer Da

Rhoddodd Felicity Stephenson, swyddog polisi a seneddol, drosolwg o ganllaw arfer da NAS ar gyfer gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol. Dywedodd wrth y grŵp nad yw awtistiaeth yn gyflwr iechyd meddwl ond bod llawer o bobl awtistig yn datblygu problemau iechyd meddwl ar ôl cael eu gwthio i argyfwng. Dywedodd FS fod arolwg o 1,500 o oedolion awtistig yn dangos bod bron pob un wedi profi pryder a dywedodd 83% eu bod wedi profi iselder. Esboniodd fod cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda phobl awtistig a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol wedi helpu i nodi newidiadau ymarferol ac addasiadau rhesymol. Awgrymodd FS y gellid defnyddio'r canllaw i wella mynediad pobl awtistig at wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

Gofynnodd Marie James, cadeirydd cangen NAS Sir Gaerfyrddin, am addasiadau rhesymol i bobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau wyneb yn wyneb. Pwysleisiodd FS bwysigrwydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac annog cefnogaeth i rieni, gan ddweud bod llawer o egwyddorion yr un mor berthnasol i ymgynghoriadau rhithwir. Dywedodd fod angen mwy o ymchwil ar arfer gorau o ran anghenion cymorth uwch. Lleisiodd MI bryderon am y camsyniad bod awtistiaeth yn broblem iechyd meddwl. Dywedodd CV y byddai'n anfon y canllaw arfer da ymlaen at ymarferwyr ac yn ei gynnwys mewn hyfforddiant ar gyfer timau iechyd meddwl. Dywedodd FR y byddai'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn rhannu'r canllaw ar ei wefan, y cyfryngau cymdeithasol, ac ar draws y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig. Ychwanegodd JA y byddai Llywodraeth Cymru yn anfon y canllaw at gydweithwyr polisi iechyd meddwl.

## 5. Piws

Rhoddodd Davina Carey-Evans gyflwyniad am Piws , prosiect sy'n ceisio creu Cymru fwy hygyrch. Drwy weithio gyda lleoliadau a'r gymuned, mae'r prosiect yn codi proffil y rhwystrau a wynebir gan bobl awtistig a'r rhai ag anableddau eraill, ac yn cefnogi busnesau i'w goresgyn. Dywedodd DCE fod gan Piws – a fydd yn cynnig archwiliadau mynediad i wefannau ac adeiladau, siopwyr dirgel, hyfforddiant, cardiau mynediad a nodau ansawdd – gynlluniau i'w cyflwyno'n llawn ym mis Mawrth 2022.

## 6. Blodau Haul Hidden Disabilities

Rhoddodd Ruth Rabet drosolwg o'r cynllun Blodau Haul Hidden Disabilities – ffordd gynnil i rywun ddewis dangos eu bod yn byw gydag anableddau anweledig. Dywedodd wrth y cyfarfod fod gan fwy na 10 miliwn o bobl yn y DU yn unig anabledd anweledig. Esboniodd RR fod y blodyn haul wedi cael ei

fabwysiadu'n fyd-eang ers ei lansio yn 2016 ac mae'n cael ei gydnabod gan lawer o feysydd awyr, archfarchnadoedd, gorsafoedd rheilffordd, cyfleusterau hamdden a gwasanaethau cyhoeddus.

**7. Unrhyw fater arall / Sylwadau i gloi**

Dywedodd MI wrth aelodau'r cyfarfod y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 7 Mawrth rhwng 10.30am a hanner dydd. I gloi'r cyfarfod, diolchodd i'r siaradwyr a phawb a oedd yn bresennol cyn dymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb.